# LEFEL 2 GOFAL, CHWARAE, DYSGU, A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD

## CANLLAW GWYBODAETH I DDYSGWYR



# TABL CYNNWYS

Cyflwyniad i'r cymhwyster........T3

Strwythur y cymhwyster........T5

Asesu........T13

Hoff ddull dysgu........T18

Rhestr termau........T22

# CYFLWYNIAD I'R CYMHWYSTER



# Ydy'r cymhwyster hwn yn addas i chi?

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Nghymru sy'n gweithio, neu sydd am weithio, mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a/neu wasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd plant.

Cafodd ei ddatblygu gan Gonsortiwm City & Guilds/CBAC mewn partneriaeth â rhanddeiliaid o'r sector gofal plant ac iechyd plant gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr dysgu yn y gweithle.

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster yn ymdrin â gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae'n adlewyrchu amrywiaeth o wahanol rolau ac oedrannau.

Mae'r cynnwys yn ymdrin â:

- egwyddorion a gwerthoedd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad
- ymarfer proffesiynol fel gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant
- diogelu plant
- iechyd a diogelwch ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

## Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu?

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i ennill cymwysterau pellach gan gynnwys y cymwysterau canlynol sy'n rhan o'r gyfres o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant i Gymru.

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

# Beth yw hanes y cymwysterau hyn?

Ar ôl adolygu'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer helaeth o gymwysterau a oedd ar gael yn achosi gormod o ddryswch i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr.

Comisiynodd Cymwysterau Cymru City & Guilds a CBAC (y Consortiwm) i ddatblygu o leiaf 19 o gymwysterau gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas i'r pwrpas ac o'r ansawdd gorau.

Gallwch chi ddarganfod mwy am adolygiad Cymwysterau Cymru yma: https://bit.ly/3jtNV3U


P'un a ydych yn yr ysgol neu goleg chwched dosbarth, yn gweithio neu'n astudio yn y coleg neu gyda darparwr yn y gweithle, mae'r gyfres o gymwysterau newydd wedi'u cynllunio i ddiwallu'ch anghenion chi.

Ar gael o Lefel 1 i Lefel 5, gan gynnwys TGAU a TAG UG a Safon Uwch, maent yn darparu cyfleoedd i symud ymlaen, p'un a ydych yn ystyried mynd i gyflogaeth, ceisio dilyniant gyrfa neu'n gobeithio mynd i goleg neu brifysgol.

# STRWYTHUR Y CYMHWYSTER



## Ble y gall arwain? Strwythur y Cymhwyster



# Strwythur Asesu'r Cymhwyster


I ennill y cymhwyster, rhaid i ymgeiswyr lwyddo yn y canlynol:

- tri asesiad mewnol, seiliedig ar senario mewnol, a osodir yn allanol; ac
- un prawf dewis lluosog i'w osod yn allanol a'i farcio'n allanol.

## Asesiad Mewnol

Mae'r asesiadau mewnol yn asesu cynnwys o Unedau 001, 002, 003 a 004. Mae pob asesiad mewnol:


- yn seiliedig ar senario i'w ryddhau ymlaen llaw sy'n gorfod cael ei rannu ag ymgeiswyr bythefnos cyn yr asesiad
- yn cynnwys cyfres o gwestiynau/tasgau na ddylid eu rhannu ag ymgeiswyr cyn yr asesiad
- yn para 60 munud
- yn gofyn am ennill marc sydd tua 75% er mwyn llwyddo
- yn derbyn gradd Llwyddo neu fethu.




## Prawf Dewis Lluosog Allanol

Mae'r prawf dewis lluosog allanol yn asesu cynnwys o bob un o'r pum uned. Dim ond drwy'r asesiad hwn y caiff Uned 005 ei hasesu. Mae'r asesiad allanol:

- ar gael ar-sgrin neu ar bapur
- yn para 75 munud
- yn cynnwys 50 o gwestiynau
- yn gofyn am ennill marc sydd tua 75% er mwyn llwyddo
- yn derbyn gradd Llwyddo neu fethu.



## Strwythur

I ennill y cymhwyster, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r pum uned orfodol ganlynol:

001 Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed) 100

002 Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad 80

003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant 50

004 Diogelu Plant 40

005 Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 30

**Cyfanswm 300**

| UNED | TROSOLWG O'R UNED |
|---|---|
| 001 Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed) | Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn dod i wybod sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau'n cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Bydd y dysgwyr yn deall yr angen i hybu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth a'r ffordd y mae dulliau plant-ganolog a seiliedig ar hawliau yn gysylltiedig â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn rhan o hyn mae'r ffordd y mae cymryd risgiau priodol yn cefnogi llesiant a chanlyniadau cadarnhaol i blant. Bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru, wrth gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a'r ffordd y gall cyfnodau o newid a phontio effeithio ar blant. Byddan nhw'n dod i ddeall sut i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant a phobl ifanc o fewn ffiniau proffesiynol a'r dulliau sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y gall credoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd y dysgwyr effeithio ar agwedd y dysgwr a'r ffordd mae'n ymddwyn tuag at blant a'u teuluoedd. |
| 002 Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygu | Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn dod i wybod am gyfnodau datblygiad plant (0-19 oed) a ffactorau sy'n gallu effeithio ar iechyd, llesiant a datblygiad plant a'u heffaith ar ddatblygiad. Bydd hyn yn cynnwys deall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ymlyniad, gwydnwch, hunan-barch, cymryd risgiau, y cysylltiadau rhwng twf deallusol, corfforol ac emosiynol a phwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd y dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o natur gyfannol datblygiad a'r ffordd y mae gweithgareddau, chwarae, amgylcheddau, arferion a phrofiadau'n cefnogi hyn. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am yr effaith ar y strwythur teuluol/gofalwyr a gweithio mewn partneriaeth ar ddatblygiad a llesiant plant a ffyrdd o gefnogi perthnasoedd a phartneriaethau cadarnhaol. Bydd y dysgwyr yn deall pwysigrwydd arsylwi ar ddatblygiad plant, ei fonitro a'i gofnodi gan nodi'n gynnar unrhyw newidiadau neu oedi mewn datblygiad a fyddai'n gallu bod yn achos pryder, egwyddorion cynhwysiant a'r gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar blant mwy abl a thalentog. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am ba mor bwysig yw gofal corfforol priodol, parchus a diogel i blant, a ffyrdd o sicrhau hynny. Mae hyn yn cynnwys gofalu am y croen, y gwallt a'r dannedd ac ystyried gwahanol gefndiroedd, diwylliannau a chrefyddau. Bydd y dysgwyr yn deall pwysigrwydd maeth a hydradu gan gynnwys canllawiau'r llywodraeth. Byddan nhw'n deall cyfrifoldebau, deddfwriaeth a chanllawiau a'u pwysigrwydd wrth roi meddyginiaeth. |

| UNED | TROSOLWG O'R UNED |
|---|---|
| 003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau gan gynnwys dyletswydd gofal, atebolrwyddau a safonau ymddygiad proffesiynol. Bydd y dysgwyr yn deall codau ymarfer, proffesiynoldeb, polisïau a gweithdrefnau gan gynnwys cyfrinachedd, cyfyngiadau eu rôl a'u cyfrifoldebau a phryd i geisio cefnogaeth ychwanegol i ddelio â sefyllfaoedd y tu hwnt i'w rôl neu achosion o wrthdaro a chyfyng gyngor. Meithrin gwybodaeth am weithio mewn partneriaeth, pwysigrwydd gweithio'n effeithiol mewn tîm ac yn amlasiantaethol, a ffyrdd o wneud hynny. Bydd y dysgwyr yn gwybod sut i drin, storio a chofnodi gwybodaeth â llaw ac yn electronig gan ddilyn deddfwriaeth a chodau ymddygiad. Bydd y dysgwyr yn deall pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus a myfyrio er mwyn gwella ymarfer gan gynnwys defnyddio adborth, rôl goruchwylio ac arfarnu, ffyrdd o feithrin gwybodaeth a sgiliau gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a'r Gymraeg. |
| 004 Diogelu Plant | Bydd y dysgwyr yn deall y termau 'diogelu' ac 'e-ddiogelwch', a chategorïau, arwyddion a symptomau o gam-drin ac esgeulustod. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad mewn perthynas â diogelu, rolau gwahanol asiantaethau a gweithdrefnau cofnodi a rhoi gwybod lle mae arwyddion o gam-drin i'w gweld. Bydd y dysgwr yn gwybod ac yn deall ei gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gan gynnwys rôl eiriolaeth, perthnasoedd priodol, ymarferion plant-ganolog, amddiffyn hawliau plant a'u teuluoedd, a sicrhau bod plant a theuluoedd yn ymwybodol o ffyrdd o gadw'n ddiogel. Bydd y dysgwr yn gwybod am ffyrdd o ymateb a gweithdrefnau cofnodi a rhoi gwybod i'w dilyn gan gynnwys dealltwriaeth o 'chwythu'r chwiban' a ffiniau cyfrinachedd. Bydd y dysgwyr yn gwybod pa ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd sy'n gallu arwain at niwed, cam-drin neu esgeulustod, neu gyfrannu atyn nhw, gan gynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, cam-drin domestig, bwlio a meithrin perthynas amhriodol. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am adolygiadau ac adroddiadau ar fethiannau difrifol i amddiffyn unigolion rhag niwed, cam-drin neu esgeulustod. |
| 005 Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | Bydd y dysgwyr yn deall sut mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn effeithio ar ymarfer bob dydd, eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain a rôl a chyfrifoldebau cyflogwyr. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddamweiniau, argyfyngau a pheryglon a fyddai'n gallu digwydd mewn gweithle/lleoliad a sut mae asesiadau risg yn cael eu defnyddio i gefnogi iechyd a diogelwch. Bydd y dysgwyr yn deall cyfrifoldebau mewn perthynas â chyflawni, cofnodi a dilyn asesiadau risg, a phwysigrwydd rhoi gwybod am bryderon a digwyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a'u cofnodi. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â diogelwch tân, symud a chario, rheoli haint, diogelwch bwyd, gwaredu gwastraff a diogelwch ynghyd â dealltwriaeth o ymarferion da a gweithdrefnau perthnasol a diogel. Bydd y dysgwyr yn gwybod am arwyddion o straen, amgylchiadau a fyddai'n gallu achosi straen a chamau mae'n bosibl eu cymryd i leihau a rheoli straen, gan gynnwys y gefnogaeth sydd ar gael. |

## Beth yw uned?

Mae'r cymhwyster yn cynnwys amrywiaeth o unedau a dewisir y rhai sy'n berthnasol i'ch swydd chi. Mae pob uned yn cynnwys yr amcanion dysgu perthnasol y mae angen i chi eu cyflawni er mwyn cwblhau eich asesiadau.

## Uned 001 Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | Lefel 2 |
| **ODA:** | 100 |
| **Nod:** | Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o wybodaeth sylfaenol am Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed). |
| **Trosolwg o'r uned:** | Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn dod i wybod sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau'n cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Bydd y dysgwyr yn deall yr angen i hybu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth a'r ffordd y mae dulliau plant-ganolog a seiliedig ar hawliau yn gysylltiedig â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn rhan o hyn mae'r ffordd y mae cymryd risgiau priodol yn cefnogi llesiant a chanlyniadau cadarnhaol i blant. Bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru, wrth gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a'r ffordd y gall cyfnodau o newid a phontio effeithio ar blant. Byddan nhw'n dod i ddeall sut i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant a phobl ifanc o fewn ffiniau proffesiynol a'r dulliau sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y gall credoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd y dysgwyr effeithio ar agwedd y dysgwr a'r ffordd mae'n ymddwyn tuag at blant a'u teuluoedd. |
| **Math o asesiad:** | Asesiad mewnol a phrawf dewis lluosog. |

ODA – oriau dysgu dan arweiniad i gwblhau'r uned hon.

Amcan – yr hyn y mae angen i chi ei ddysgu er mwyn paratoi ar gyfer asesu.

Deilliant dysgu – rhan ar wahân o ddysgu sy'n berthnasol i nod yr uned. Bydd nifer y DD yn amrywio yn ôl uned.

### Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

### Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

1.1 **deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau, safonau a fframweithiau** sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
1.2 yr egwyddorion sy'n sail i ymarfer mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
1.3 pam mae'r egwyddorion hyn yn bwysig i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a sut maen nhw'n cefnogi ymarfer
1.4 **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol**, i bwy maen nhw'n berthnasol a sut mae'n bosibl eu defnyddio.

## Pa leoliadau gwaith gallaf fynd iddyn nhw?

Gallwch ymgymryd â lleoliad gwaith mewn mwy nag un lleoliad gofal plant neu iechyd plant wedi’i reoleiddio.

## Rhinweddau a sgiliau personol y mae eu hangen:

- Gofalgar
- Cyfeillgar
- Agos-atoch (approachable)
- Dibynadwy
- Empathig
- Amddiffynnol
- Cyfathrebwr da
- Creadigol
- Prydlon
- Chwaraewr tîm da
- Defnyddio eich menter eich hun
- Amyneddgar
- Meddwl agored
- Parchus
- Deall a gweld gwerth mewn diwylliannau, credoau a chrefyddau eraill
- Gwydn
- Gallu ymddiried ynoch


Meithrinfa


Meithrinfeydd dydd preifat


Cylch chwarae


Lleoliadau Gofal Iechyd


Ysgolion Cynradd (y cyfnod sylfaen yn unig)

# Pwy fydd yn rhan o fy nhaith ddysgu?

## Tiwtor

- gofyn ac ateb cwestiynau
- helpu i gynllunio a threfnu llwyth gwaith ac ati
- eich helpu i ddod o hyd i leoliadau gwaith
- arholi eich portffolio o dystiolaeth
- asesu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth
- barnu pryd fyddwch chi wedi bodloni'r safon ofynnol.

## Aseswr

- ymweld â chi yn eich lleoliad gwaith
- cynnal eich arsylwadau
- rhoi adborth ar ymarfer proffesiynol
- eich helpu i gynllunio a pharatoi ar gyfer asesiadau
- bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad asesu ynghylch pa mor dda rydych yn gwybod ac yn deall y wybodaeth am y cymhwyster.

## Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol

- byddan nhw yn cael eu dewis gan eich ysgol, coleg neu ddysgwr yn y gweithle
- maen nhw yn sicrhau bod athrawon/tiwtoriaid/aseswyr yn gywir, yn deg ac yn gyson o ran dehongli a deall safonau a gofynion y cymhwyster.

## Mentor lleoliad gwaith

- mentora a chefnogi pan fyddwch chi ar leoliad gwaith
- cysgodi a dysgu arfer da
- pwynt cyswllt cyntaf pan fyddwch chi ar leoliad gwaith
- cwblhau'r cyfnod sefydlu.

# Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Efallai y bydd modd i chi wneud cais am gefnogaeth ychwanegol yn ystod eich cyfnod astudio ac asesu. Bydd yn rhaid i chi fodloni meini prawf penodol. Mae'r broses yn cymryd amser i'w threfnu felly gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad â'ch tiwtor/athro neu aseswr cyn gynted â phosibl i wneud y trefniadau.

Mae llawer o wefannau sy'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth ychwanegol:

## Dysgu Iechyd a Gofal Cymru: https://bit.ly/3fRjzq4

## Llawlyfr Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru: https://bit.ly/3jvMe6n

## Gofal Cymdeithasol Cymru: https://bit.ly/3jt91j5

# ASESU



## Sut byddaf i'n dysgu?

Mae'r cymhwyster craidd fel arfer yn cael ei gyflwyno ar ddechrau eich rhaglen er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hanfodion ymarfer bob dydd.

Mae'r cymhwyster craidd yn gymhwyster gwybodaeth sy'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen i'r cymwysterau ymarfer Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant er mwyn dangos gallu.

### Mae'r ffyrdd gwahanol o gyflwyno'r cymhwyster hwn yn cynnwys:



Gweithdai




Sesiynau un i un



Ymarfer myfyriol



Dysgu o bellter



Ymchwil unigol

# Beth fyddaf i'n ei ddysgu wrth gwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd?

## Mae rhai o'r testunau y byddwch chi'n ymdrin â nhw isod:


Egwyddorion a gwerthoedd mewn GChDDP


Dull plentyn-ganolog


Perthnasoedd ac agweddau proffesiynol


Dulliau ymddygiad



Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru


Ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad, iechyd a llesiant


Amgylcheddau


Anghenion cefnogi ychwanegol


Gofal corfforol i blant


Maeth a hydradu


Diogelu


Maeth a hydradu Diogelu Iechyd a Diogelwch

# Asesiad mewnol – Astudiaethau achos

Mae cyfanswm o 3 asesiad mewnol i'w cwblhau (001/002, 001/003, 001/004)

Mae'r asesiadau mewnol yn asesu cynnwys o Unedau 001, 002, 003 a 004.

## Mae pob asesiad mewnol:

- yn seiliedig ar senario i'w ryddhau ymlaen llaw sy'n gorfod cael ei rannu ag ymgeiswyr bythefnos cyn yr asesiad
- yn cynnwys cyfres o gwestiynau/tasgau na ddylid eu rhannu ag ymgeiswyr cyn yr asesiad
- yn para 60 munud
- yn gofyn am ennill marc sydd tua 75% er mwyn llwddo
- yn derbyn gradd llwyddo neu fethu.

## Sampl o gwestiynau astudiaeth achos

1. Mae lleoliadau Meithrinfa Oak Tree yn ymfalchïo yn eu gallu i roi pwyslais ar ddull plentyn-ganolog.

(a) Amlinellwch pam mae dull plentyn-ganolog yn bwysig mewn lleoliad fel Meithrinfa *Oak Tree*. [1]

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

(b) Disgrifiwch ddwy ffordd sut mae Meithrinfa *Oak Tree* yn cefnogi dull plentyn-ganolog. [2]

(i) ...................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

(ii) ..................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

# Asesiad allanol – Prawf Cwestiwn Dewis Lluosog

Mae'r prawf dewis lluosog allanol yn asesu cynnwys o bob un o'r pum uned (001-005)

## Mae'r asesiad allanol:

- ar gael ar-sgrin neu ar bapur
- yn para 75 munud
- yn cynnwys 50 o gwestiynau
- yn gofyn am ennill marc sydd tua 75% er mwyn llwyddo
- yn derbyn gradd llwyddo neu fethu.

## Sampl o gwestiynau Prawf Dewis Lluosog

1. Pa ddeddfwriaeth sy'n cynnig yr amddiffyniad gorau yn erbyn gwahaniaethu yng Nghymru?

   (a) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

   (b) Deddf Plant 1989 a 2004

   (c) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

   (ch) Deddf cydraddoldeb 2010.

2. Mae teuluoedd yn cael eu gwahodd i leoliadau gofal plant yn aml i rannu gwybodaeth am eu cefndiroedd diwylliannol. Esiampl o beth yw hyn?

   (a) Unigoliaeth, gwahaniaethiad ac amrywiaeth yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu

   (b) Anghenion, hawliau a safbwyntiau'r plentyn yn cael eu dilyn

   (c) Iechyd a llesiant plant yn cael eu hybu'n weithredol

   (ch) Dull plentyn-ganolog yn cael ei hybu'n weithredol.

# HOFF DDULL DYSGU



## Sut ydw i'n hoffi dysgu – beth yw fy 'hoff' ddull dysgu?

Mae dysgu yn broses unigol iawn, ac felly mae'n bwysig canolbwyntio ar sut gallwch ddysgu a phrosesu gwybodaeth yn effeithiol a sut gall hyn gefnogi eich llwyddiant a'ch dilyniant. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu'n effeithiol er mwyn i chi allu cofio eich gwybodaeth newydd yn hawdd pan mae angen. Nid yw hyn yn ymwneud â pherfformio'n dda yn eich asesiadau yn unig – mae'r un mor bwysig eich bod yn gallu cofio eich gwybodaeth wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant ac eraill. Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi chi i ddatblygu a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o bobl hoff ffordd o ddysgu y gellir ei disgrifio'n fras mewn un neu ddau o'r canlynol:

- Gwneud
- Meddwl
- Teimlo
- Gwylio.


Dros y blynyddoedd mae cryn dipyn o fodelau neu ddamcaniaethau wedi'u datblygu i geisio ein helpu ni i gydnabod sut rydyn ni'n dysgu a pha fathau o bethau y gallai fod eu hangen ar bobl wahanol er mwyn gwneud dysgu'n haws ac yn fwy llwyddiannus. Dau o'r modelau mwyaf poblogaidd neu'r rhai a ddefnyddir amlaf yw damcaniaeth dysgu drwy brofiadau Kolb (1984) a damcaniaeth Honey a Mumford (1983) ar ddulliau dysgu.

Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod 'profiadau' yn ganolog i'r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithred – teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.




Kolb D.A. (1984) 'Experiential Learning experience as a source of learning and development', New Jersey: Prentice Hall

Adeiladodd Honey a Mumford ar ddamcaniaeth Kolb gan awgrymu bod pedwar math o ddulliau dysgu ac y bydd dull dysgu unigolyn yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan un neu ddau o'r rhain yn unig.




Pan gyflwynwyd y testun o 'hoff' ddulliau dysgu am y tro cyntaf fel ffordd o gefnogi dysgu effeithiol, credai llawer mai dim ond mewn ffordd benodol yr oedd unigolion yn dysgu a bod hyn yn gymharol ddinewid. Mae syniadau modern am 'hoff' ddull dysgu yn cydnabod na ddylid meddwl am y ffordd rydych yn mynd ati i ddysgu fel rhywbeth sy'n ddinewid. Mae meddwl am eich hoff ffordd o ddysgu yn ddefnyddiol i'ch helpu i ystyried sut rydych chi'n ymateb yn wahanol i wybodaeth gan ddibynnu ar bethau fel sut rydych chi'n teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych chi ynddo ac ati.

Os ydych chi'n meddwl am y tro diwethaf y bu'n rhaid i chi ddysgu rhywbeth, efallai y byddwch yn gweld bod eich hoff ddull yn gweddu i un, neu ddau efallai, o'r categorïau canlynol:

| Dull Dysgu | Efallai mai dyma'ch hoff ddull dysgu os: | Rydych yn: | Mathau o ddulliau dysgu sy'n apelio |
|---|---|---|---|
| Gweithredydd | rydych chi'n hoffi dysgu drwy wneud | frwdfrydig; yn tueddu i weithredu'n gyntaf, ac ystyried yn nes ymlaen; yn y sefyllfa sydd ohoni | cynhyrchu syniadau, arbrofi ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau. |
| Pragmatydd | rydych chi'n hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu'n gallu gweithio yn y byd go iawn | tueddu i sefyll yn ôl; ystyried pob ongl; tueddu i fod yn or-ofalus | astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol yr hyn rydych yn ei ddysgu |
| Myfyriwr | rydych chi'n hoffi meddwl am yr hyn rydych chi'n ei ddysgu | hoffi rhoi cynnig ar bethau; yn gweithredu'n gyflym ac yn hyderus; yn gallu bod yn ddiamynedd; yn ddatryswr problemau effeithiol | treulio amser yn darllen o amgylch pwnc, a gwylio eraill yn rhoi cynnig ar bethau |
| Damcaniaethwr | rydych chi'n hoffi deall sut mae'r dysgu newydd yn cyd-fynd â'ch 'model gweithio' neu 'fframwaith' ac â damcaniaethau blaenorol | dda am addasu; yn hoffi dadansoddi i feddwl yn ddwfn am bethau; yn feddyliwr rhesymegol | modelau a damcaniaethau, gyda digon o wybodaeth gefndirol |

Os ydych yn meddwl am rai profiadau dysgu eraill yr ydych wedi eu cael, efallai y byddwch yn sylwi eich bod wedi defnyddio dull gwahanol oherwydd, er enghraifft, (1) roedd gennych fynediad at adnoddau gwahanol, (2) roeddech chi'n teimlo'n hyderus, (3) roeddech chi'n gallu cymryd eich amser. Y rheswm am hyn yw bod yr amgylchedd, sut rydych chi'n teimlo'n emosiynol a'ch profiadau dysgu yn y gorffennol yn gallu effeithio ar sut gallech fynd ati i ddysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu yn haws i chi a pha bryderon, os o gwbl, sydd gennych chi am ddechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd. Efallai y bydd eich tiwtor/athro/athrawes/mentor yn y gweithle/cyflogwr hefyd yn gallu eich helpu i gael mynediad at gefnogaeth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i adnabod a deall yn well pa ddulliau dysgu gwahanol sy'n gweithio orau i chi.

# RHESTR TERMAU



# Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau ymarfer** | Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar yr elfennau gwahanol sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau. |
| **Cymhwyso uned 200** | Cynnwys yr uned hon yw cymhwyso ymarfer sy'n adlewyrchu'r wybodaeth sylfaenol y bydd y dysgwyr wedi'i meithrin drwy'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.<br><br>Bydd angen defnyddio cynnwys yr uned hon mewn unedau ar draws y cymhwyster – dylid ystyried hyn yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno unedau eraill yn y cymhwyster. |
| **Crynodeb o'r uned** | Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned gan gynnwys pa wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau y mae'r uned yn berthnasol iddyn nhw neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddyn nhw. |
| **Deilliannau dysgu** | Mae deilliannau dysgu yn grwpio sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu. |
| **Meini prawf asesu** | Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan amrediad, a nodir gan eiriau neu ymadroddion mewn print **trwm**. |
| **Amrediad** | Bydd rhai geiriau neu ymadroddion yn y meini prawf asesu mewn print **trwm**. Mae hyn yn golygu bod amrediad wedi cael ei chyflwyno a fydd i'w gweld ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r wybodaeth yn yr amrediad yn trafod pa mor fanwl y mae angen bod a faint o fanylion i'w cynnwys ar gyfer meini prawf asesu penodol. Nid yw'r amrediad yn rhestr gynhwysfawr, gallai enghreifftiau eraill fod yn addas i'r maes testun hwn. Y gosodiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr amrediad yw'r rheini sy'n allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid ymdrin â'r holl elfennau a restrir yn yr amrediad fel rhan o gyflwyno'r uned**.<br><br>Mae'n ofynnol cyflwyno'r holl elfennau sy'n rhan o'r amrediad, ond nid oes disgwyl arsylwi holl elfennau'r amrediad yn benodol yn rhan o'r broses asesu; mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dyfarniad cyfannol yw'r dyfarniad asesu, a'i fod yn seiliedig ar lefel y deilliant dysgu. |
| **Gofynion tystiolaeth** | Mae gofynion tystiolaeth yn rhoi manylion am sawl gwaith mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau gweithgareddau ymarferol cyn yr ystyrir eu bod yn gymwys os nad yw'r uned yn cael ei hasesu fel rhan o'r dull asesu cyfannol. Dim ond ar gyfer unedau o fewn Grŵp Dewisol C mae gofynion tystiolaeth wedi cael eu hysgrifennu. Mae manylion llawn y dull asesu ar gyfer y cymhwyster i'w gweld yn adran asesu'r llawlyfr hwn ac yn y pecyn asesu cysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| **Canllawiau cyflwyno** | Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maen nhw'n cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft, cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng unedau o fewn y cymhwyster neu enghreifftiau o'r ffordd y gellir cyflwyno'r cynnwys i ddysgwyr.<br>Mae'r canllawiau cyflwyno yn cynnwys diffiniadau o derminoleg allweddol y cyfeirir ati yn yr uned.<br>D.S. – Ar gyfer Uned 200 mae'r diffiniadau o'r termau sy'n cael eu dangos mewn print **trwm** wedi'u cynnwys yn y canllawiau cyflwyno. |
| **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig (***National Occupational Standards***)** | Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maen nhw'n dangos ble y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel rhan o unedau. D.S. – er y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y rhai ar y rhestr yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhain. |
| **Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig** | Cyflwynir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati ar y rhestr yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned. |
| **Arweiniad o ran yr unedau a argymhellir** | Argymhellir y dylai dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn gyda'r bwriad o symud ymlaen i rôl benodol yn y sector iechyd a gofal plant gael arweiniad o ran yr unedau a fydd fwyaf buddiol iddyn nhw yn y rolau hyn.<br>Darperir tabl (Atodiad 1) er mwyn helpu i nodi'r unedau sy'n fwyaf addas ar gyfer rolau penodol.<br>Gellir cael rhagor o arweiniad ar ofynion rolau penodol yn y sector ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru |
| **Gwerth Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** | Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o oriau dysgu dan arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ddysgwr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, ynghyd â dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae unrhyw oriau dysgu dan arweiniad wedi'u talgrynnu i'r pum awr agosaf. |
| **Gwerth credyd** | Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad **yn ogystal ag** unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd eu hangen ar y dysgwr i gwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. |

## Berfau gorchmynnol a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn:

| Berf Orchmynnol | Disgrifiad |
|---|---|
| Diffiniwch | Rhowch union ystyr |
| Disgrifiwch | Rhowch nodweddion / prif elfennau neu hanes cryno |
| Rhowch | Darparwch / enwch / dewiswch / nodwch ffeithiau cryno neu enghreifftiau (o ffynhonnell benodol neu drwy ddwyn i gof) |
| Nodwch *(Identify)* | Fel yn achos 'rhowch' |
| Rhestrwch | Fel yn achos 'rhowch' |
| Enwch | Fel yn achos 'rhowch' |
| Nodwch *(State)* | Fel yn achos 'rhowch' |
| Awgrymwch | Rhowch syniad, rheswm neu ddull gweithredu posibl |
| Rhowch grynodeb | Dewiswch a chyflwynwch y prif bwyntiau (heb fanylion) |

| Berf Orchmynnol | Disgrifiad |
|---|---|
| Addaswch | Defnyddiwch ddiagram neu eiriau i wneud yn glir sut mae cysyniad neu theori yn gweithio mewn cyd-destun penodol |
| Cymhwyswch | Defnyddiwch wybodaeth a dealltwriaeth o theori neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol |
| Disgrifiwch | Rhowch fanylion effaith, h.y. yr hyn sydd wedi newid/digwydd |
| Esboniwch | Rhowch fanylion a rhesymau i egluro sut a pham mae rhywbeth fel y mae |
| Eglurwch | Defnyddiwch ddiagram neu eiriau i wneud yn glir sut mae cysyniad neu theori yn gweithio mewn cyd-destun penodol |
| Amlinellwch | Nodwch y prif bwyntiau/rhowch ddisgrifiad byr neu nodwch y prif nodweddion |
| Dangoswch | Fel yn achos 'eglurwch' |
| Defnyddiwch | Cymhwyswch y wybodaeth a roddwyd at theori neu gysyniad penodol |